Annwyl riant/gofalwr,

Rydym yn siŵr eich bod yn ymwybodol o gyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar y 3ydd o Fehefin, y byddai ysgolion yn ailagor o'r 29ain o Fehefin. Roedd y cyhoeddiad hwn yn cynnwys ymestyn tymor yr haf o wythnos ychwanegol, i roi cyfle i blant ail gydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf. Roedd pob ysgol yn Sir Ddinbych wedi datblygu cynlluniau i sicrhau bod disgyblion yn cael y profiad gorau posibl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol, a hynny mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Fodd bynnag, er bod pob ysgol a'r awdurdod lleol yn gwbl gefnogol i'r cyhoeddiad i ymestyn y tymor ysgol, yn anffodus mae wedi dod yn amlwg na chyrhaeddwyd cytundeb cenedlaethol rhwng Llywodraeth Cymru a'r undebau llafur ar gynigion y bedwaredd wythnos. Mae hyn yn golygu nad yw'r awdurdod lleol yn gallu dilyn y broses briodol er mwyn gwneud y newid angenrheidiol i'r dyddiadau tymhorau o fewn yr amserlen, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Addysg (y diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol) (Cymru) 2003. Mae hefyd yn golygu na fyddai penaethiaid a chyrff llywodraethu yn gallu gwarantu y byddai pob ysgol yn cael ei staffio'n ddigonol ar sail wirfoddol.

Felly, gan na allwn warantu y byddai pob ysgol yn cael ei staffio'n ddigonol, o ystyried ein cyfrifoldebau statudol fel cyflogwr ac er mwyn diogelu plant a phobl ifanc, bydd ysgolion Sir Ddinbych yn cau ar gyfer gwyliau'r haf ar ddydd Gwener 17eg Gorffennaf 2020.

Byddwn yn darparu gwybodaeth am ofal plant brys wrth iddo ddod ar gael, ond mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir na ddisgwylir i ysgolion gynnig y ddarpariaeth barhaus hon.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi eto am eich amynedd a'ch dealltwriaeth yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn.

Regards

Judith Greenhalgh

Prif weithredwr Cyngor Sir Ddinbych

Hugh Evans

Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol dros yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol

Cllr Huw Hilditch-Roberts

Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Karen Evans

Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant

Cyngor Sir Ddinbych, PO Box 62,
Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 9AZ
01824 706000

Denbighshire County Council, PO Box 62,
Ruthin, Denbighshire LL15 9AZ
01824 **706000**

Dear Parent / Carer,

We are sure that you are aware of the Minister for Education's announcement on 3rd June, that schools were to re-open from 29th June. This announcement included the extension of the summer by an extra week, to provide an opportunity for children to check-in, catch up and prepare for the summer. All schools in Denbighshire had developed plans to ensure that pupils have the best experience possible on their return to school in a safe and supported environment.

However, whilst all schools and the local authority were totally supportive of the announcement to extend the school term, unfortunately it has become clear that a national agreement between the Welsh Government and the trade unions has not been reached on the fourth week proposal. This means that the local authority is unable to follow due process in order to make the required change to the term dates within the time frame, as required by The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003. It also means that Headteachers and Governing Bodies would be unable to guarantee that every school would be staffed sufficiently on a voluntary basis.

Therefore, as we cannot guarantee that every school would be staffed sufficiently, and being mindful of our statutory responsibilities both as an employer and for the safeguarding of children and young people, Denbighshire schools will close for the summer holidays on Friday 17th July 2020.

We will provide information regarding emergency childcare as it becomes available, but the Welsh Government has made it clear that schools are not expected to make this ongoing provision.

We would like to take this opportunity to thank you again for your patience and understanding during these very challenging times.

Regards

Judith Greenhalgh

Chief Executive Denbighshire County Council

Hugh Evans

Leader of the Council and Lead Member for the Economy and Corporate Governance

Cllr Huw Hilditch-Roberts

Cabinet Lead Member for Education, Children's Services and Public Engagement

Karen Evans

Head of Education and Children's Services

Cyngor Sir Ddinbych, PO Box 62,
Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 9AZ
01824 706000

Denbighshire County Council, PO Box 62,
Ruthin, Denbighshire LL15 9AZ
01824 **706000**